Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Hydref 2018

Amser: 09.17 – 11.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5106

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Michelle Brown AC Hefin David AC Suzy Davies AC Janet Finch-Saunders AC Llyr Gruffydd AC Julie Morgan AC
Tystion:	Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Huw Morris, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Gareth Rogers (Ail Glerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) Phil Boshier (Ymchwilydd)

	Michael Dauncey (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Diolchodd i John Griffiths am ei holl waith yn ystod ei gyfnod ar y Pwyllgor.

2 Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – byddwn yn canolbwyntio ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar faterion AU ac AB.

2.2 Cytunwyd i ddarparu'r canlynol:

CLGau sydd gan Lywodraeth Cymru â darparwyr prentisiaeth;

Copi o adroddiad Greystone;

Nodyn ar bryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r gwaith gyda CCAUC a phrifysgolion ar eu cynllun gweithredu a'u hymagwedd strategol at iechyd meddwl gael ei gwblhau a'i roi ar waith.

3 Papurau i’w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim

3.2 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

3.3 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

3.4 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

3.5 Llythyr gan Mind Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion ar y Cyd ar Ddull Ysgol Gyfan o Hybu Iechyd Meddwl

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiwn graffu

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith dilynol ar rai materion gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog.

6 Ymchwiliad i gyllido ysgolion - Trafod y dull gweithredu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl diwygiedig a'r dull casglu tystiolaeth.